**Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION**
**a gynhaliwyd o bell drwy fideo-gynadledda**
**ddydd Iau, 25ain Tachwedd, 2021**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Ellen ap Gwynn, Ceredig Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies,Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies, Steve Davies, Dafydd Edwards, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Elizabeth Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gwyn James, Alun Lloyd Jones, Matthew Woolfall Jones, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Catrin Miles, Dan Potter, Ray Quant MBE, John Roberts, Lynford Thomas, Wyn Thomas ac Ivor Williams.

(2.00 - 3.10pm)

**Gweithdrefn**

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Paul Hinge, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Rhodri Davies, Elaine Evans, Hag Harris, Maldwyn Lewis, Rowland Rees-Evans a Mark Strong am nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Alun Williams am nad oedd modd iddo fod yn bresennol am ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Evans oherwydd byddai'n ymuno â'r cyfarfod yn hwyrach.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

**3 Materion Personol**

a) Talodd y Cynghorydd Ray Quant deyrnged i bawb a fu'n rhan o'r ymgyrch i newid y penderfyniad i israddio'r bad achub yng Ngheinewydd, gan nodi y bydd bad achub bob tywydd ar gael bellach yng Ngheinewydd yn dilyn adolygiad. Nododd y Cynghorydd Dan Potter, sydd hefyd yn llywiwr ar fad achub Ceinewydd, bwysigrwydd yr orsaf hon. Diolchodd i griw'r bad achub a'r gorsafoedd cyfagos a gefnogodd yr ymgyrch hon a thraddodiad mwyaf yr RNLI, sef achub bywydau ar y môr. Hefyd dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod rhoi Cynnig gerbron y Cyngor, a chefnogaeth unfrydol yr Aelodau iddo, wedi arwain at weld yr RNLI yn 'newid gêr' yn bendant gan ddangos pa mor effeithiol yw dod â chynigion o'r fath gerbron y Cyngor;

b) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei longyfarchiadau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar Eisteddfod lwyddiannus ym Mhafiliwn Bont ac i bawb a enillodd yn y gwahanol gategorïau gan gynnwys Llanwenog a enillodd y wobr gyntaf, Pontsiân a ddaeth yn ail a chlwb Troedyraur a ddaeth yn drydydd. Twm Ebbsworth enillodd Coron yr Eisteddfod ac Ianto Jones enillodd y Gadair. Aeth Ianto Jones ymlaen i ennill y Gadair dros Gymru gyfan a daeth Twm Ebbsworth yn ail yn y Goron dros Gymru gyfan;

c) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei longyfarchiadau i Eluned Jones ar ennill y Goron ac Martha Evans ar ennill y Gadair yn Eisteddfod

Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr.

d) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei longyfarchiadau i'r Clybiau Ffermwyr Ifanc ar gael Diwrnod Maes llwyddiannus, a enillwyd gan Glwb Ffermwyr Ifanc Llangwyryfon. Dymunodd yn dda i bawb a fydd yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yn y Ffair Aeaf.
e) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei longyfarchiadau i Dai Thomas o Lanwnnen ar ennill y bustach gorau yn y Ffair Aeaf yn Lloegr, ac i bawb arall a oedd yn llwyddiannus;
f) Estynnodd y Cynghorydd Meirion Davies ei longyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Llangwyryfon ar ennill yn y Diwrnod Maes am y seithfed flwyddyn yn olynol, a hynny ar fferm Trawsgoed yn ei Ward;
g) Estynnodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE ei longyfarchiadau i Eluned Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn 102;
h) Nododd y Cynghorydd John Adams-Lewis fod y gwaith ar y ffordd yn Ystâd Brynhafod bellach wedi'i gwblhau yn sgil cynllun gan Lywodraeth Cymru, a diolchodd i'r Swyddogion am eu cefnogaeth;
i) Dymunodd y Prif Weithredwr Eifion Evans yn dda i Caroline Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol, ar ei hymddeoliad a diolchodd iddi am ei gwaith dros y pymtheg mlynedd diwethaf, yn enwedig ei chyfraniad dros y deuddeg mis diwethaf wrth hyrwyddo'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant. Ategwyd y diolch gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn;
j) Dymunodd y Cynghorydd Elizabeth Evans yn dda i Amanda Roberts, Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol ar ei hymddeoliad a diolchodd iddi am ei gwaith dros y 36 mlynedd diwethaf yn cefnogi ac yn rhoi hyder i'r Pwyllgor Archwilio. Ategwyd y diolch gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn;
k) Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei llongyfarchiadau i Elgan Evans o Dalybont ar ennill gyda'r gwartheg duon a'r bridiau cynhenid yn y Ffair Aeaf yn Lloegr.

**4 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

Rhoddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ddiweddariad ar lafar ynghylch COVID-19 yng Ngheredigion. Nododd fod cyfanswm o 6,330 o achosion wedi'u cofnodi yng Ngheredigion. Mae mwy o achosion yn awr nag ar ddechrau'r pandemig, ond maen nhw'n dechrau gostwng.

Mae'r gyfradd heintio wythnosol bresennol ar gyfer Ceredigion yn 266.9 am bob can mil gyda chyfradd positif o 12.6%, o'i gymharu â Chymru gyfan, sef 499.9 a chyfradd positif o 19%. Ar lefel leol, yn ystod y cyfnod rhwng 14 ac 20 Tachwedd roedd y gyfradd heintio yn 450.6 am bob can mil yn Aberteifi ac Aberporth, gyda 40 o achosion; 270.6 achos am bob can mil yn Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul gydag 20 o achosion; 502.1 o achosion am bob can mil yng Ngheinewydd a Phenbryn gyda 33 o achosion; 157.7 achos am bob can mil yn Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad gyda 13 achos; 338.2 achos am bob can mil yn Aberaeron a Llanrhystud gyda 24 o achosion; 147.2 achos am bob can mil yn Rheidol, Ystwyth a Charon gydag 17 o achosion; 328.7 achos am bob can mil yn Ne Aberystwyth gyda 22 achos; 113.2 achos am bob can mil yng Ngogledd Aberystwyth gyda 10 achos; a 210.6 achos am bob can mil yn y Borth a Bont-goch gyda 15 achos. Atgoffwyd pawb fod angen bod yn ofalus o hyd.

Nodwyd bod dau achos o COVID-19 yn Ysbyty Bronglais, 29 yn Ysbyty Glangwili, 5 yn Ysbyty'r Tywysog Philip a 12 yn Ysbyty Llwynhelyg a bod y niferoedd hefyd yn disgyn yn ôl pob golwg ym mhob un o ysbytai ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae tri o gartrefi gofal y Cyngor wedi'u rhoi yn y categori coch oherwydd yr achosion o COVID-19 ymhlith y staff, ac mae tri wedi'u rhoi yn y categori melyn, oherwydd bod un aelod o staff wedi profi'n bositif.

Gwelwyd cynnydd mewn achosion yn yr ysgolion yn dilyn hanner tymor, ond mae'r rhain gryn dipyn yn is yn awr a'r gobaith yw y byddant yn parhau i ostwng rhwng nawr a gwyliau'r Nadolig.

Mae'r canolfannau gwastraff bellach yn gweithio yn ôl yr arfer ac mae trefniadau clicio a chasglu ar waith o hyd yn ein llyfrgelloedd. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn y Flwyddyn Newydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo yng Nghanolfan Hamdden Plascrug, Canolfan Hamdden Aberteifi a Phwll Nofio Llanbedr Pont Steffan. Mae'r gwaith wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, ac rydym yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a achosir.

Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff o dan oruchwyliaeth feddygol, a fu'n cwrdd ar-lein, yn mynd i ddechrau cwrdd wyneb yn wyneb a chynghorir y cyhoedd i fwrw golwg ar Gynllun Ffordd Ymlaen Ceredigion i gael y diweddaraf am y newidiadau o ran gwasanaethau.

**5 Cofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 yn gywir.

**6 Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd 21 Hydref 2021**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 yn gywir.

**7 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 - Diweddariad**

Bu i'r Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democrataidd, gyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol diweddaredig 2020/21 i'r Cyngor, gan nodi fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 18 Mawrth 2021 ac wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gynharach heddiw.

Nododd fod dau fân newid wedi'u gwneud i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 gan gyfeirio at 'Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021'. Nid yw Archwilio Cymru wedi argymell newidiadau ond gwnaethpwyd newidiadau i adlewyrchu'r camau sydd wedi'u cymryd a'u cwblhau erbyn hyn.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol, yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwygiedig 2020/21.

a) **Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon 2020/21**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Eleanor Ansell o Archwilio Cymru.

Cyflwynodd Eleanor Ansell Adroddiad ISA260 ynghylch y Datganiad o Gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2020/21, gan nodi bod y terfynau amser statudol wedi'u llacio gan Lywodraeth Cymru ac y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn bodloni'r terfynau amser newydd hyn.

Nododd nad oes dim materion o bwys yn codi o'r archwiliad. Hefyd maen nhw wedi adolygu datganiad ariannol yr awdurdod harbwr ac nid oes dim materion o bwys yn codi o hwn ychwaith. Diolchodd i'r staff am gydweithio'n dda gyda nhw a daeth i'r casgliad mai bwriad Archwilio Cymru oedd cyhoeddi barn ddiamod ar ôl archwilio cyfrifon eleni.

b) **Sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar yr adroddiad**
Dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fod y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried Datganiad Cyfrifon 2020/21 yn fanwl yn gynharach y diwrnod hwnnw, a diolchodd i'r tîm gan nodi nad oedd modd cael gwell canlyniad na hyn. Diolchodd i Archwilio Cymru am weithio gyda'r swyddogion mewn ffordd adeiladol, gan nodi na fu'n rhaid mynd i'r afael â materion ynglŷn ag Ystadau eleni, a diolchodd i'r Gwasanaeth am fynd i'r afael â'r materion blaenorol.

Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei llongyfarchiadau i bawb ar adroddiad rhagorol, yn enwedig mewn amgylchiadau mor anodd.

c) **Datganiad Cyfrifon 2020/21**
Mynegodd y Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, ei ganmoliaeth o'r Datganiad Cyfrifon ac adroddiad ISA260 gan nodi fod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon erbyn 30 Tachwedd 2021, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nododd fod yr alldro yn dangos fod y gyllideb wedi'i mantoli, na fu newid yn y Gronfa Gyffredinol o £6.1m nac yn lefel y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, ac mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod parthed y Cyfrifon. Diolchodd i'r staff i gyd a'r Archwilwyr am eu gwaith caled yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon glân hwn tra oeddent yn ymdrin â chyfrifoldebau ychwanegol hefyd.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans ddiolchgarwch y busnesau bach am fod y Cyngor wedi prosesu grantiau gwerth £49 miliwn yn ddiymdroi. Hebddynt, byddai sawl busnes wedi methu.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion a Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer 2020/21.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021**

**CADEIRYDD: ______________**